

**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 17eg Tachwedd 2021 gan gychwyn am 6.00pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

#### **69. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Miss S. L. Roberts.

#### **70. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 20fed Hydref 2021 - Rhifau Cofnod Nos. 56-68

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Hydref 2021 - Rhifau Cofnod 27-29

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 3ydd Tachwedd 2021 - Rhifau Cofnod 30-32

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

I gadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 3ydd Tachwedd 2021 - Rhifau Cofnod 48-58  
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a **PHENDEFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

#### **71. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) dros y mis diwethaf a chyfeiriodd yn benodol at wasanaeth y Lleng Brydeinig Frenhinol yn y Gerddi Coffa a'r Gwasanaeth Diwrnod Coffa, hefyd yn y Gerddi Coffa, a oedd wedi eu trefnu yn dda a lle cafwyd presenoldeb da.

**72. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNNIG I BRYNU CRIBIN TRAETH**

Ymhellach i gofnod rhif 54 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Tachwedd 2021, croesawodd y Maer y swyddogion canlynol o Gyngor Sir Ddinbych - Mr Andy Clarke a Mr Mike Bennion i'r cyfarfod a'u gwahodd i annerch y cynghorwyr ar gynnig i brynu cribin traeth.

Chwaraeodd Mr Bennion ddau fideo byr yn dangos y cribin yn gweithio, a oedd yn codi sbwriel gan gynnwys eitemau bach fel sigarets a gwydr wedi torri yn hawdd heb godi tywod, gan adael y traeth yn lân a llyfn.

Dywedodd Mr Clarke mai cost y cribin a'r tractor oedd £54,000. Byddai £15,000 yn cael ei ddarparu gan fenter Cadw Cymru'n Daclus, ac roedd angen canfod y £39,000 arall.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau, dywedodd Mr Clarke a Mr Bennion:

- na fyddai'r cribin yn disodli'r gwaith clirio traeth a oedd yn cael ei wneud gan swyddogion Strydlun ar hyn o bryd, ond byddai'n ychwanegol iddo a byddai'n eu rhyddhau i weithio yng nghanol y dref, gan y byddai'r cribin yn clirio'r traeth mewn mymryn o amser o gymharu.
- Ni fyddai'r cribin yn codi gwymon.
- Roedd y Cyngor Sir yn ymroddedig i ddisodli holl gerbydau tanwydd ffosil yn y pen draw gyda rhai trydan a byddai hyn yn cynnwys y tractor traeth.
- Roeddynt wedi cynyddu nifer y biniau yn yr ardal dros y blynyddoedd, ond yn anffodus roedd rhai pobl nad oedd am eu defnyddio, a bod mwy o amharodrydd dros y 18 mis diwethaf oherwydd y pandemig Covid gan nad oedd pobl eisiau cyffwrdd y biniau. Roedd biniau heb fflapiau nawr wedi eu disodli gyda rhai gyda chaead wedi ei orchuddio ac ochrau agored diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Roeddynt yn parhau i weithio gyda grwpiau glanhau cymunedol.
- Gan fod yr adeiladwaith craig ond yn mynd i gael ei gyflwyno dan rai rhannau o'r traeth, gyda'r rhan fwyaf o'r lle yn elwa o wal gynnal, ni ragwelwyd y byddai'n broblem i'r cribin.
- Byddai'r cribin yn gwella'r profiad i drigolion ac ymwelwyr ac efallai y byddai hyd yn oed yn cynyddu nifer yr ymwelwyr?
- Gallant drefnu i'r cynghorwyr weld y cribin yn gweithio yn Llandudno pe byddai hynny yn helpu?

- Eu bwriad oedd cysylltu gydag Ardal Gwella Busnes y Rhyl (BID) i ofyn am gyfraniad tuag at y cribin, felly gallai'r Cyngor Tref hefyd ddod mewn partneriaeth gyda CSDd, BID a Chadw Cymru'n Daclus?
- Byddai cyfraniad y Cyngor Tref yn un unwaith ac am byth, a byddai CSDd yn talu am y gwaith cynnal a chadw.
- Byddai lefel y cyfraniad gan y Cyngor Tref yn cael ei dylanwadu gan lefel y cyfraniad gan BID, o ran y balans gweddillol ar ôl sicrhau cyllid BID, os o gwbl?
- Byddai'r cribin yn canolbwyntio ar y Rhyl ond yn cael ei ddefnyddio mewn ardaloedd eraill fel y bo angen.
- Byddai'r cribin yn cael ei ddefnyddio ddwywaith y dydd ac yn cael ei benderfynu gan amseroedd llanw.
- Nid oeddynt yn meddwl y byddai talu mewn rhandaliadau yn broblem.

Diolchodd y Maer i Mr Clarke a Mr Bennion am eu hamser, cyn iddynt adael y cyfarfod.

Hysbysodd Clerc y Dref yr aelodau ar lefel y cyllid a oedd ar gael i'r Cyngor Tref, a oedd yn gyfyngedig, a rhoi syniad i'r aelodau o'r effaith ar ymrwymadau cyllidebol eraill, pe byddent yn penderfynu cynnig unrhyw gymorth ariannol i'r cribin.

***PENDERFYNWYD*** o roddi'r mater i'r bleidlais, bod yr aelodau yn cefnogi cynnig cyfraniad ariannol yn amodol ar ganlyniad cysylltiadau â phartion eraill ac ymweliad i weld y cribin yn gweithio yn Llandudno.

**[Datganodd y Cyngorydd B. Jones fyddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem uchod oherwydd ei swydd fel aelod o Gabinet CSDd, a gadawodd y cyfarfod cyn i'r bleidlais gael ei chynnal]**

**[Hysbysodd y Cyngorydd T. Thomas y cyfarfod o'i swydd fel is-gadeirydd BID y Rhyl ond nid oedd yn credu bod hyn yn wrthdrawiad buddiannau, felly cymerodd ran yn y bleidlais]**

### **73. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (27ain Hydref – 9fed Tachwedd 2021)*

Rhif Taleb	Enw'r cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
1273	Pottles Premier Plants Ltd	1,554.48	Planhigion y gaeaf
1274	GoToMyPC	1,480.00	Tanysgrifiad blynyddol x4 (i alluogi gweithio o bell/y cartref)
1275	Hamden Sir Ddinbych Cyf	770.00	Llogi Neuadd y Dref ac arlwyo ar gyfer Sul Dinesig 3/10/21
	<b>Cyfanswm taliadau</b>	<b>£3,804.48</b>	

Ni wnaed unrhyw daliadau brys yn y cyfnod. Roedd un taliad gyda cherdyn - taleb rhif 1274 yn cyfeirio.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Clerc y Dref ymateb fel mater o frys.

**74. CYNGOR SIR DDINBYCH – DYDDIAU PARCIO AM DDIM**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau ystyried pa ddyddiau i'w dyrannu ar gyfer pum diwrnod parcio am ddim y Rhyl hyd at 31ain Rhagfyr 2021.

Dywedodd y Mader bod y pum diwrnod cyn diwrnod y Nadolig fel rheol yn cael eu dewis, ac eleni byddai'r rhain ar ddydd Llun 20fed – dydd Gwener 24ain Rhagfyr.

Awgrymodd Clerc y Dref bod maes parcio'r llyfrgell yn cael ei adael allan eleni er mwyn osgoi'r dryswch roedd hyn yn tueddu i'w achosi.

Gofynnodd y Maer am wirfoddolwyr i osod arwyddion ar y peiriannau tocynnau a chynigiodd y Cynghorwyr Mrs E. M. Chard, A. R. James, K. Jones a V. Roberts eu gwasanaethau.

**PENDERFYNWYD** mai'r pum diwrnod parcio am ddim fyddai dydd Llun 20fed – dydd Gwener 24ain Rhagfyr, ac na fyddai'n cynnwys maes parcio'r llyfrgell.

**75. EITEM GAN AELOD: GWASANAETH PRAWF GOGLEDD CYMRU**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE am gefnogaeth yr aelodau i wahodd cynrychiolwyr Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru i roddi cyflwyniad i'r Cyngor ar y gwasanaethau y gallent eu cynnig heb godi pris.

**PENDERFYNWYD** bod y Cynghorydd Butterfield yn rhoi manylion cyswllt i Clerc y Dref ac iddo ef wahodd Gwasanaeth PraWF Gogledd Cymru i fynychu cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

**76. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**77. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth:

Is-bwyllgor - 25ain Hhydref 2021 - Rhifau Cofnod 28-36  
Asesu Risg

Dyweddodd y Cynghorydd A. R. James nad oedd ei ymddiheuriadau ef wedi eu cynnwys yn y cofnodion.

**PENDERFYNWYD** derbyn y cofnodion a'u newid i gynnwys ymddiheuriadau'r Cynghorydd A. R. James.

**78. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Maer: .....

Dyddiad: .....